



CYFARFOD BWRDD CYHOEDDUS

22 Hydref 2020
Cyfarfod rhithwir
09:15 – 13:30

Sesiwn gyhoeddus			Tudalen
09:15	1.	Croeso a sylwadau agoriadol gan y Cadeirydd	Llafar
09:20	2.	Ymddiheuriadau a Datgan Buddiannau	Llafar
09:25	3.	Cofnodion cyfarfod Bwrdd 16 Gorffennaf 2020 I'w cymeradwyo	SCW/20/12 3
09:30	4.	Log gweithredu a materion yn codi	SCW/20/13 22
09:35	5.	Diweddariad gan Gadeiryddion y Pwyllgorau I'w nodi a derbyn	Llafar
09:45	6.1	Lansio Strategaeth y Gweithlu ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol Vaughan Gething AS, y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Julie Morgan AS, Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol	Llafar
Atebolrwydd			
10:00	6.2	Atebolrwydd gyda Julie Morgan AS, Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol	Llafar
11:00 – 11:10 Egwyl			
Ar gyfer penderfyniad:			
11:10	7.	Cynllun Busnes: Adroddiad cynnydd Chwarter 2 I'w ystyried a chymeradwyo	SCW/20/14 29
11:40	8.	Adroddiad Cydraddoldeb Blynyddol 2019-20 I drafod a chymeradwyo	SCW/20/15 53
12:00 – 12:10 Egwyl			
12:10	9.	Adolygiad Cyflog Cyfartal 2019-20 I'w nodi a thrafod	SCW/20/16 72

12:30 10. [Diweddariad grant Rhaglen Datblygu'r Gweithlu Gofal Cymdeithasol](#) SCW/20/17 89
I'w ystyried a chymeradwyo

12:50 11. [Cylch gorchwyl Grŵp Cydlynu Cadeiryddion](#) SCW/20/18 95
I'w ystyried a chymeradwyo

Er gwybodaeth

13:10 12. Negeseuon allweddol gan y Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwyr Llafar
I'w nodi a derbyn

I'w drafod:

13:20 13. Effeithiolrwydd y cyfarfod Llafar
I'w drafod

Dyddiad cyfarfod nesaf:

Dydd Iau 28 Ionawr 2021



Gofal Cymdeithasol Cymru Social Care Wales

Cyfarfod Cyhoeddus o'r Bwrdd 16 Gorffennaf 2020 Cyfarfod Zoom Rhithwir 09:30 – 13:00

Yn bresennol:

Aelodau'r Bwrdd:

Mick Giannasi,
Abigail Harris
Carl Cooper
Damian Bridgeman
Donna Hutton
Emma Britton
Grace Quantock
Jane Moore
Jo Kember
Kate Hawkins
Maria Battle
Peter Max
Rhian Watcyn Jones
Simon Burch
Trystan Pritchard
(eitem 1-8)

Swyddogion Gofal Cymdeithasol Cymru:

Sue Evans (Prif Swyddog Gweithredol)
Sarah McCarty (Cyfarwyddwr Gwella a Datblygu)
Geraint Rowlands (Cyfarwyddwr Cynorthwyol Cyllid a TGCh)
Hywel Dafydd (Cyfarwyddwr Cynorthwyol Rheoleiddio)
Jon Day (Cyfarwyddwr Cynorthwyol y Gweithlu)
Kate Salter (Cyfarwyddwr Cynorthwyol Gwasanaethau Corfforaethol)
Llinos Bradbury (Uwch Swyddog Llywodraethu – cofnodion)

Yn bresennol:

Daxa Varsani
Natalie Price
Aled Jones, Cymen (cyfieithu ar y pryd)

Sesiwn gyhoeddus:

1. **Croeso a Sylwadau Agoriadol gan y Cadeirydd**
 - i. Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod a dywedodd mai cyfarfod cyhoeddus rhithwir o'r Bwrdd oedd hwn gyda chyfieithu ar y pryd ar gael. Anogodd y Cadeirydd y rhai a oedd yn gallu cyfrannu yn Gymraeg i wneud hynny.
2. **Ymddiheuriadau a datgan buddiannau**
 - i. Derbyniwyd ymddiheuriadau gan David Pritchard, y Cyfarwyddwr Rheoleiddio.
 - ii. Nid oedd unrhyw ddatganiadau buddiant newydd.
3. **Cofnodion cyfarfodydd y Bwrdd ar 30 Ebrill a 28 Mai 2020**

- i. Cafodd cofnodion cyfarfodydd 30 Ebrill a 28 Mai eu gwirio am eu cywirdeb a'u **cymeradwyo** gan y Bwrdd.

4. Cofnod gweithredu a materion yn codi

- i. Tynnwyd sylw'r aelodau at y log gweithredu parhaus sy'n rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd a wnaed yn erbyn camau gweithredu sy'n weddill ers y cyfarfod diwethaf.
- ii. Gofynnodd y Cadeirydd a oedd unrhyw ddiweddariad pellach mewn perthynas â gweithredu Adran 160 o Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru). Dywedodd HD fod deialog barhaus gyda chydweithwyr yn Llywodraeth Cymru a'r DU. Cytunwyd y gellir cyfeirio at Adran 160 mewn trafodaethau â'r rhai y ceisir gwybodaeth ganddynt. Fodd bynnag, o ran y gallu i gymryd camau gorfodi, nid yw'r ddeddfwriaeth angenrheidiol o hyd yn barod i'w rhoi ar waith.
- iii. Gofynnodd CC am ddiweddariad am y gwaith sy'n cael ei wneud i gasglu'r hyn a ddysgwyd o COVID-19. Ymatebodd SMC, gan esbonio bod nifer o fecanweithiau ar waith ar gyfer casglu arferion da a nodedig. Nid oes bylchau amlwg ar hyn o bryd er bod angen dadansoddi pellach mewn meysydd penodol; er enghraifft, mae Llywodraeth Cymru yn cynnal adolygiad cyflym o'r ymateb mewn cartrefi gofal. Ffocws presennol Gofal Cymdeithasol Cymru yw ceisio deall a oedd yr hyn a wnaeth y sefydliad wedi gwneud gwahaniaeth a'r ffordd orau o rannu'r dystiolaeth a gasglwyd. Mae gwaith yn mynd rhagddo gyda YLab sydd wedi'i leoli ym Mhrifysgol Caerdydd a NESTA i weithio drwy'r mecanweithiau priodol ar gyfer rhannu gwybodaeth a rhyngweithio â'r sector.
- iv. Dywedodd SE wrth y Bwrdd fod Bwrdd Trawsnewid Cymru lachach yn adolygu'r dulliau sy'n cael eu defnyddio i gasglu gwybodaeth mewn perthynas ag arfer da a nodedig yn ystod COVID-19. Gan fod mesurau a chanlyniadau ychydig yn wahanol yn cael eu casglu, bydd yn bwysig gweld beth oedd yn gweithio'n dda a deall beth oedd y ffactorau llwyddiant hanfodol a oedd yn sail i fentrau llwyddiannus.
- v. Tynnodd SE sylw hefyd at y gwaith sy'n cael ei wneud yn fewnol, gan weithio gyda Chyfnwidfa Arfer Da Archwilio Cymru i ddadansoddi sut mae Gofal Cymdeithasol Cymru wedi ymdopi fel sefydliad yn ystod yr ymateb i COVID-19 ac i nodi pa newidiadau sydd wedi'u gwneud i alluogi'r cynllun busnes i gael ei gyflawni tra'n gweithio o bell.
- vi. Cyfeiriodd JK at waith y mae wedi bod yn ei wneud drwy'r Drug Watch Forum a Crew yn yr Alban i gefnogi'r digartref a'i bod yn credu y gallai'r Bwrdd Trawsnewid ddod o hyd i dystiolaeth ddefnyddiol ar gyfer ei adolygiad o'r gwaith hwnnw.
- vii. Gofynnodd GQ a oedd gan y Gwobrau rôl o ran rhannu arferion da wrth symud ymlaen. Cytunodd SMC fod cysylltiad â'r Gwobrau, drwy rannu ymarfer yn dilyn y seremonïau.
- viii. Myfyriodd AH ar sylwadau SE am nodi'r dysgu, a thynnodd sylw at y ffaith fod nifer o brosiectau gwahanol gydag amrywiadau bychan yn eu henwau. Bydd y Byrddau

Partneriaeth Rhanbarthol yn cynnal eu hadolygiad eu hunain o'r dysgu, ond mae pryder ynghylch natur tymor byr yr arian a dderbynnir gan y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol i wneud y gwaith hwn. Mae Cadeiryddion y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol wedi ysgrifennu i danlinellu bod angen rhoi rhybudd cynnar os bydd cyllid yn parhau, gan fod y rhan fwyaf o'r arian yn rhanbarth Caerdydd a'r Fro wedi mynd i'r gwasanaethau cymdeithasol a bydd hynny'n creu pwysau tymor hwy os nad yw'r cyllid hwn yn mynd i barhau.

- ix. Rhannodd MB fanylion 'ymarfer darganfod' a gynhaliwyd yng Ngorllewin Cymru ar draws meysydd iechyd, gofal cymdeithasol a'r sector gwirfoddol. Cyflwynir adroddiad i Fwrdd Iechyd Hywel Dda maes o law ac mae MB yn hapus i hwn gael ei rannu er mwyn helpu gyda'r sgwrs genedlaethol.

5. Y wybodaeth ddiweddaraf gan Gadeiryddion Pwyllgorau

- i. Fel Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Risg, darparodd RWJ grynodedb o'r hyn a drafodwyd yng nghyfarfod diweddaraf y Pwyllgor. Yn benodol, tynnodd sylw at "y môr gwyrdd" (cyfeiriad at dra-arglwyddiaeth sgoriau sicrwydd sylweddol) yn yr adroddiadau archwilio mewnol yn ystod 2019-20 yn ogystal â barn ddiamod ar y cyfrif blynyddol gan Archwilio Cymru. Diolchodd i Swyddogion, yn enwedig y tîm cyllid, am eu gwaith, a oedd yn adlewyrchu'n dda ar y sefydliad. Darparwyd diweddariad llafar hefyd ar raglen bontio'r blynyddoedd cynnar a gofal plant, ac effaith COVID-19 ar y sector penodol hwn. Mae gwaith y rhaglen hon wedi'i ail-ganolbwyntio i gefnogi adferiad y sector yn y tymor byr.
- ii. Gofynnodd RWJ i aelodau'r pwyllgor a oedd unrhyw beth arall roeddent am dynnu sylw ato. Ychwanegodd KH fod llinell sylfaen o ddata ar gael bellach o'r gweithlu blynyddoedd cynnar a gofal plant cyn COVID-19, a nododd hefyd fod contract Deloitte fel archwilwyr mewnol wedi'i ymestyn am ddwy flynedd.
- iii. Ategodd y Cadeirydd hefyd y sylwadau cadarnhaol a wnaeth RWJ am ganlyniadau'r rhaglen archwilio mewnol ond gofynnodd am sicrwydd bod y rhaglen yn ddigon cytbwys fel bod meysydd risg yn cael eu harchwilio yn ogystal â meysydd lle mae prosesau a systemau'n gadarn. Cadarnhaodd RWJ fod yr archwilwyr wedi rhoi sicrwydd i'r Pwyllgor Archwilio bod hon yn broses bellgyrhaeddol, nad yw'n arwynebol ac y dylai'r Bwrdd fagu hyder yn sgil lefel y sicrwydd a ddarparwyd mewn perthynas â'r rhaglen yn gyffredinol.
- iv. Fel Cadeirydd y Pwyllgor Gwella, tynnodd PM sylw at y gwaith craffu a oedd wedi digwydd o gefnogaeth y sefydliad i'r sector yn ystod yr ymateb i COVID-19. Ar ôl gwneud hynny, teimlai'r Pwyllgor y dylid diolch i'r holl swyddogion a staff am eu gwaith rhagorol. Cafodd y Pwyllgor ddiweddariad am y gwaith ymchwil, data a deallusrwydd, a nodwyd gwaith pellach ar lywodraethu'r maes hwn sydd angen ei wneud yn ystod y 6 mis nesaf. Yn dilyn cyflwyniad Grant Thornton, penderfynodd y Pwyllgor dreulio amser yn ei gyfarfod nesaf yn edrych yn fwy strategol ar faes cyfrifoldeb y Pwyllgor. Ar ôl ystyried amrywiaeth o opsiynau, penderfynodd y Pwyllgor y byddai'r Gwobrau'n cael eu cynnal yn ystod y flwyddyn galendr hon, yn bennaf fel digwyddiad rhithwir, gyda'r defnydd o stiwdio ddarlledu. Pwysleisiodd y Pwyllgor fod angen i'r seremoni fod

yn ysbrydoledig ac yn galonogol, a gofynnwyd i'r fformat arfaethedig gael ei drafod gyda'r rhai a gyrhaeddodd y rownd derfynol.

- v. Hysbysodd MW y Bwrdd am ddatblygiadau sydd wedi digwydd mewn perthynas â chynllunio ar gyfer seremoni'r Gwobrau ers cyfarfod y Pwyllgor Gwella. Anfonwyd e-bost at bob un o'r rhai a gyrhaeddodd y rownd derfynol yn amlinellu'r cynnig y dylai'r seremoni fod yn seremoni rithwir yn bennaf ac i'r ymateb fod yn gadarnhaol iawn. Cafwyd ymateb cadarnhaol hefyd ynglŷn â'r cynnig y byddai'r rhai a gyrhaeddodd y rownd derfynol yn ymgymryd â'r ffilmio angenrheidiol lle nad oedd y gwaith hwn wedi'i gwblhau cyn cyflwyno'r cyfyngiadau symud, gyda chyfarwyddyd a chymorth yn cael eu darparu gan y tîm Cyfathrebu lle bo angen. Bydd y seremoni'n cael ei darlledu fel rhaglen deledu a fydd tua awr o hyd. Caiff ei chyflwyno'n broffesiynol a bydd yn ceisio crynhoi'r ysbrydoliaeth a'r cyffro y tu ôl i'r Gwobrau. Mae trafodaethau'n parhau ar argaeledd stiwdio ddarlledu ac mae cyfarfodydd wedi'u trefnu gyda'r cwmni cynhyrchu. Mae trafodaethau'n cael eu cynnal hefyd gyda darlledwr teledu adnabyddus a'r gobaith yw cyflwyno'r seremoni rithwir.
- vi. Fel Cadeirydd y Pwyllgor Rheoleiddio a Safonau, mynegodd SB ddiolch i Swyddogion am gynnal parhad busnes yn ystod y cyfnod hwn. Mae cyfarfod diweddar y Pwyllgor hefyd wedi canolbwyntio ar yr ymateb i COVID-19 ac yn benodol wedi craffu ar y newidiadau dros dro a ddigwyddodd i'r broses gofrestru. Bydd eitem sefydlog ar COVID-19 ar agendâu yn y dyfodol i sicrhau bod y Pwyllgor yn gallu monitro a deall yr effaith wrth symud ymlaen, yn enwedig mewn meysydd pwysig fel gwrandawiaadau o bell, newidiadau i gofrestru yn ogystal â'r goblygiadau ariannol. Cafodd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am y cynllun gwaith traws-sefydliadol a'r rhaglen waith o dan reoliadau ar gyfer gwella.
- vii. Dywedodd y Cadeirydd ei fod wedi arsylwi ar bob un o'r tri Phwyllgor diweddar ac wedi canmol y Cadeiryddion yn benodol ar ansawdd ac effeithiolrwydd y cyfarfodydd. Mae'r Bwrdd a'r sefydliad wedi addasu'n dda i ffyrdd rithwir o weithio ac mae'r trawsnewid wedi bod bron yn gwbl ddi-drafferth. Mewn trafodaethau gyda sefydliadau partner, mae'n amlwg nad yw wedi bod yn broses mor hawdd i eraill, ac mae'n arwydd o waith caled a phroffesiynoldeb ein timau llywodraethu a TG fod Gofal Cymdeithasol Cymru wedi gallu cynnal ei fusnes llywodraethu a'i weithredoedd gweithredol tra bod y timau hynny'n gweithio o bell eu hunain.

6. Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Drafft 2019-20, adroddiad Archwilio Cyfrifon

- i. Cyflwynodd SE yr eitem hon a chymeradwyodd yr adroddiad blynyddol drafft a'r cyfrifon i'r Bwrdd. Esboniodd fod y ddogfen yn darparu crynodeb lefel uchel o'r hyn a gyflawnodd y sefydliad yn ystod blwyddyn ariannol 2019-20. Lle y bo'n briodol, mae enghreifftiau wedi'u cynnwys; fodd bynnag, mae dewis pa feysydd gwaith i dynnu sylw atynt wedi bod yn heriol o ystyried na ellir cynnwys popeth. Dywedodd SE fod cael set arall o gyfrifon diamod yn newyddion ardderchog i'r sefydliad, a diolchodd i bawb a fu'n rhan o'r gwaith hwn.
- ii. Ymddiheurodd GR am i'r papur gael ei gyflwyno'n hwyr. Dywedodd wrth y Bwrdd fod problem wedi codi ar y funud olaf mewn perthynas ag ymrwymiad pensiwn y sefydliad a oedd yn gofyn am graffu pellach gan Archwilio Cymru. Cafodd y mater ei ddatrys er

bodddad Archwilio Cymru ar 13 Gorffennaf ar ôl i wybodaeth bellach ddod i law gan yr actiwariaid a chadarnhawyd y farn ddiamed. Ac eithrio rhai mân addasiadau, y cyfrifon gerbron y Bwrdd oedd yr un cyfrifon ag y craffwyd arnynt gan y Pwyllgor Archwilio a Risg yn ei gyfarfod ar 26 Mehefin. O ran y sylwebaeth ar berfformiad a'r datganiad llywodraethu, cafwyd sylwadau gan aelodau cyn y cyfarfod a bydd mân addasiadau i adlewyrchu'r sylwadau hynny. Yn benodol, bydd y nifer o ddilynwyr Twitter yn cael eu diwygio o 8,100 i 5,100 a bydd naratif ymgyrch Gofalwn yn cael ei gryfhau. Bydd y paragraff chwythu'r chwiban hefyd yn cael ei ddiwygio i gadarnhau na fu unrhyw achosion o dan y polisi chwythu'r chwiban yn ystod 2019-20.

- iii. Pwysleisiodd KS mai Gweinidogion y Senedd a Senedd Cymru yw'r gynulleidfa ar gyfer yr adroddiad blynyddol statudol a'r ddogfen gyfrifon. Mae'r adroddiad effaith, a gynhyrchir yn flynyddol, wedi'i ysgrifennu ar gyfer cynulleidfa ehangach, gan gynnwys y cyhoedd, a bydd hyn yn nodi effaith ein gwaith yn ystod 2019-20.
- iv. Fel Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Risg, sicrhodd RWJ y Bwrdd fod yr adroddiad blynyddol wedi'i archwilio'n fanwl yng nghyfarfod mis Mehefin a'i bod yn fodlon argymhell yr adroddiad i'w gymeradwyo gan y Bwrdd. Myfyriodd y Cadeirydd hefyd ar gyflwyniad cadarnhaol yr adroddiad gan Archwilio Cymru i'r Pwyllgor, ac na chafodd y trefniadau gwaith rhithwir presennol effaith ar ei gynhyrchu.
- v. Tynnodd GR sylw'r Bwrdd at dudalen 63 o Lyfr y Bwrdd, yn enwedig yr adroddiad cydnabyddiaeth ariannol. Gan fod y Cyfarwyddwr Rheoleiddio ar secondiad i'r sefydliad, nid yw manylion ei gyflog wedi'u cynnwys yn y tabl; fodd bynnag, er mwyn tryloywder, mae ei ystod cyflog wedi'i chynnwys yn y nodiadau ac mae'r un peth yn wir am Gyfarwyddwyr eraill. Nododd datgeliad cyflog teg ar dudalen 65 mai'r gymhareb rhwng yr enillydd uchaf a'r canolrif yw 3.6, sydd yr un fath â'r llynedd.
- vi. Yn y datganiad o wariant net cynhwysfawr ar dudalen 74 a'r datganiad o sefyllfa ariannol ar dudalen 75, tynnodd GR sylw at gynnydd o 18% mewn costau staffio. Y rheswm am hyn yw cynnydd yn nifer y staff, cynnydd yng nghost cyflogau byw a chynnydd yng nghyfraniad pensiwn cyflogwyr ac addasu pensiynau. Mae incwm cofrestru yn sylweddol uwch na'r disgwyl oherwydd cynnydd mewn ffioedd a'r nifer uwch ar y gofrestr oherwydd ehangu i weithwyr gofal cartref.
- vii. Tynnodd GR sylw at y ffaith bod cyfanswm y gwariant wedi cynyddu o £18.5m i £22m oherwydd ailasesiad actiwaraidd o werth ymrwymiad pensiwn y sefydliad. Yn seiliedig ar ffigurau mis Mawrth 2019, mae'r gost wedi cynyddu ddwy filiwn o bunnoedd; mae un filiwn yn ymwneud â'r ffaith bod gwerth asedau wedi gostwng oherwydd amrywiadau yng ngwerth y farchnad stoc a'r filiwn arall yn bennaf yn gysylltiedig â phrofiad atebolrwydd.
- viii. Mae hyn yn golygu, er bod y gronfa gyffredinol wrth gefn yn ddigonol i ddiwallu anghenion y sefydliad, bod sefyllfa negyddol o ran cronfeydd pensiwn wrth gefn o £2m. Sicrhodd GR yr aelodau fod y cyfrifon wedi'u rhannu â'n Noddwr yn Llywodraeth Cymru sy'n ymwybodol o'r sefyllfa. Yn wir, cafwyd trafodaethau hirfaith am y sefyllfa o ran pensiynau dros nifer o flynyddoedd. Mae statws risg y sefydliad wedi'i addasu ar gyfer y tair blynedd nesaf ac o ganlyniad ni fydd costau cyfraniad y cyflogwr yn cynyddu'n sylweddol yn ystod y cyfnod hwnnw. Yn y cyfamser, mae Llywodraeth Cymru wedi ysgrifennu at Gyngor Rhondda Cynon Taf yn gofyn am

ddiwygio statws y sefydliad o amddifad i gorff gwarantu. Fodd bynnag, nid oes ymateb wedi dod i law eto.

- ix. Mewn ymateb i gwestiwn gan aelod, esboniodd GR fod y cynnydd mewn rhent o ganlyniad i sicrhau adain ychwanegol yn Nhŷ Southgate wrth i fwy o staff rheoleiddio gael eu recriwtio; dim ond mis o'r rhent ychwanegol a dalwyd yn ystod 2018-19 sy'n esbonio maint y cynnydd yn ystod 2019-20.
- x. Rhannodd SE ei rhwystredigaethau ynghylch yr amser mae'n ei gymryd i wneud newidiadau i statws pensiwn y sefydliad, a fyddai'n gwneud gwahaniaeth sylweddol i'n costau. Mae angen datrysiad tymor hwy; os na ellir fforddio'r trefniant pensiwn presennol, bydd angen edrych ar wahanol opsiynau, a allai arwain at drefniant dwy haen ar adeg pan fo'r llywodraeth yn chwilio am gysoni Cyrrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru yn well.
- xi. Gwahoddodd y Cadeirydd sylwadau gan yr aelodau:
- cyfeiriodd GQ at adran datblygu'r Bwrdd yn yr adroddiad. Croesawodd y cyfeiriad at waith datblygu parhaus mewn perthynas â gwrth-hiliaeth ond gofynnodd sut y byddid yn cyfeirio at hyn yn ehangach wrth symud ymlaen. Ymatebodd SE, gan ddweud bod cydraddoldeb ac amrywiaeth yn cael eu hystyried o'r newydd o safbwynt Bwrdd a staffio. Dywedodd wrth y Bwrdd fod cwestiwn wedi'i godi gan aelod o staff ynglŷn â sut yr oedd y sefydliad yn bwriadu ymateb i ymgyrch Mae Bywydau Du o Bwys. O ganlyniad, cynhaliodd SMc gyfarfod â'r staff ar 9 Mehefin i edrych ar ddull y sefydliad o ymdrin ag amrywiaeth a chydraddoldeb yn fwy cyffredinol yn wyneb y datblygiadau presennol. O ganlyniad, mae gweithgor mewnol wedi'i sefydlu i ddatblygu gwedd newydd ar y cynllun gweithredu. Cynigiwyd hefyd y dylid trefnu amrywiaeth a chydraddoldeb fel maes trafod yn y dyfodol mewn Diwrnod Datblygu Bwrdd ac mae'n bosibl y bydd cyfleoedd ar gyfer rhai sesiynau dysgu rhithwir ar y cyd â staff. **GWEITHREDU.**
 - Gofynnodd GQ a fydd yr ymateb a amlinellwyd gan SE yn cael ei grybwyll i'r cyhoedd. Fe'i sicrhawyd gan SE bod ymgyrch Gofalwn a chyhoeddiadau eraill yn cael eu defnyddio i gyfleu negeseuon allweddol am gydraddoldeb ac amrywiaeth. Fodd bynnag, pwysleisiodd SE ein bod yn cymryd ein hamser i sicrhau cynhyrchu rhaglen amrywiaeth a chydraddoldeb sydd wedi'i hystyried yn gadarn. Ychwanegodd SMc hefyd y bydd y cynllun cydraddoldeb strategol yn cael ei adnewyddu yn unol â'r adolygiad o'r cynllun strategol a bydd hyn yn rhoi cyfle i herio a chraffu. Gofynnodd GQ, lle bynnag y bo'n bosibl, fod data'n cael ei ddaduno, er mwyn osgoi'r risg y bydd materion pwysig yn mynd ar goll ynghlwm wrth yr acronym BAME.
 - Gofynnodd CC a ddylai'r Bwrdd fod yn bryderus ynghylch effaith referniw prisiadau actiwaraid ar y fantolen. Dywedodd GR y gall prisiadau amrywio o un flwyddyn i'r llall a chydbwysu'n aml. O ganlyniad, nid oedd yn bryder sylweddol. Fodd bynnag, os nad yw'r diffyg yn cydbwysu yn y tymor hwy, bydd oblygiadau ar y pwynt gwerthuso nesaf. Am y rheswm hwnnw, roedd yn bwysig mynd i'r afael ag effaith statws amddifad ar y costau pensiwn.
- xii. Tynnodd GR sylw at yr Adroddiad Archwilio Cyfrifon gan Archwilio Cymru sy'n cadarnhau bod yr Archwilydd Cyffredinol wedi cyhoeddi barn ddiamod. Nodwyd un

mater, a oedd yn ymwneud â'r angen i sicrhau bod unrhyw uwch reolwr neu aelod o'r Bwrdd sy'n gadael y sefydliad yn gwneud datganiad o fuddiannau wrth adael. Mae'r sefydliad wedi derbyn yr argymhelliad a bydd system yn cael ei sefydlu i sicrhau bod datganiad yn cael ei wneud ar y pwynt gadael.

- xiii. Diolchodd y Cadeirydd i'r aelodau am eu sylwadau a'u cwestiynau ac unwaith eto mynegodd ddiolch y Bwrdd i GR a'i dîm am y gwaith a wnaethpwyd ganddynt i gyrraedd y sefyllfa hynod foddhaol hon.
- xiv. I gloi, cytunodd y Bwrdd iddo **graffu** ar yr Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Drafft a'i **gymeradwyo** ac iddo **graffu** ar yr Adroddiad Archwilio Cyfrifon a'i **gymeradwyo**.

7. Adroddiad sicrwydd Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Risg i'r Bwrdd

- i. Esboniodd KS, fel rhan o fframwaith llywodraethu'r sefydliad, mai Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Risg sy'n gyfrifol am roi sicrwydd ychwanegol i'r Bwrdd mewn perthynas â gwaith y Pwyllgor a sut mae hynny'n ategu'r adroddiad blynyddol statudol a'r cyfrifon.
- ii. Cyflwynodd KS adroddiad y Cadeirydd, a oedd yn nodi gwaith y Pwyllgor Archwilio a Risg yn ystod 2019-20 ac sy'n caniatáu i'r Bwrdd weld canlyniadau'r rhaglen Archwilio Mewnol yn ei chyfanrwydd.
- iii. Mae'r adroddiad hefyd yn tynnu sylw at y ffocws wrth symud ymlaen ar gyfer 2020-21, mewn perthynas â phontio'r rhaglen blynyddoedd cynnar a gofal plant yn ogystal â senarios ariannol sy'n gyson â'r adolygiad o'r cynllun strategol.
- iv. Gofynnodd y Cadeirydd a oedd cwestiynau neu sylwadau gan y Bwrdd. Nid oedd unrhyw sylwadau.
- v. Fel Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Risg, diolchodd RJW i aelodau'r Pwyllgor am eu gwaith yn ystod 2019-20 ac yn benodol am y craffu manwl a wnaed ar ran y Bwrdd.
- vi. Cytunodd y Bwrdd ei fod wedi **trafod a chymeradwyo** Adroddiad Sicrwydd Blynyddol y Pwyllgor Archwilio a Risg.

8. Cynllun Busnes: Adroddiad cynnydd Chwarter 1

- i. Dywedodd KS wrth y Bwrdd fod y Cynllun Busnes a'r Llythyr Cylch Gwaith ar gyfer 2020-21 gyda'r Gweinidog Cyllid er mwyn eu cymeradwyo ar hyn o bryd a bod disgwyl ymateb yn fuan. Unwaith y byddant wedi'u cymeradwyo, bydd yr aelodau'n cael gwybod a bydd y llythyr yn cael ei gyhoeddi ar wefan Gofal Cymdeithasol Cymru. Mae gwaith yn parhau yn unol â'r amlinelliad yn y cynllun busnes drafft tra disgwylir cymeradwyaeth ffurfiol.
- ii. Esboniodd KS fod yr adroddiad yn amlinellu perfformiad yn erbyn y Cynllun Busnes ar ddiwedd Chwarter 1. Atgoffodd yr aelodau fod y cynllun busnes wedi'i ail-lunio i ganolbwyntio ar 3 maes:

- Cyflawni swyddogaethau craidd a statudol, wedi'u haddasu fel sy'n ofynnol yn wyneb COVID-19;
 - Mentrau ymateb cyflym COVID-19 – y pethau sy'n cael eu gwneud fel ymateb buan i anghenion y sectorau ar hyn o bryd;
 - Cefnogi adferiad a chynaliadwyedd yn dilyn COVID-19: cefnogi'r sector a'r sefydliad i fod yn barod ar gyfer adferiad cynaliadwy.
- iii. Tynnwyd sylw'r aelodau at y risg strategol newydd a nodwyd mewn perthynas â sicrhau capasiti allanol i gyflawni'r ymrwymadau a nodir yn y Cynllun Busnes. Mater arall i'r Bwrdd fod yn ymwybodol ohono yw'r cydbwysedd ymgysylltu â'r sector dros y flwyddyn; bydd angen dull pwylllog o ymdrin â gwaith ymgysylltu, o ystyried popeth arall sy'n ofynnol gan randdeiliaid.
- iv. Cyfeiriodd KS at sylwebaeth perfformiad thema blaenoriaeth 1, y gweithlu gofal cymdeithasol a'r blynyddoedd cynnar, a gofynnodd i HD ymateb i gwestiynau a dderbyniwyd mewn perthynas â phrosesu ceisiadau. Ymatebodd HD i gwestiwn EB mewn perthynas â chapasiti'r tîm cofrestru oherwydd nifer y ceisiadau sydd eto i'w prosesu. Esboniodd HD fod nifer sylweddol uwch o weithwyr gofal cartref wedi'u cofrestru o gymharu â'r niferoedd a ragwelwyd. O ganlyniad, mae'r broses o fynd drwy'r ceisiadau hynny wedi effeithio ar nifer y ceisiadau sydd i'w prosesu; fodd bynnag, pe na bai digon o staff wedi bod ar waith, ni fyddai hyn wedi bod yn bosibl. Sicrhaodd HD y Bwrdd fod digon o gapasiti ac er bod y tîm wedi cael ei foddi gan geisiadau, mae'n ymdopi'n dda. Mae'r tîm hefyd wedi bod yn ymateb i COVID-19 drwy gymryd camau i leihau'r baich rheoleiddio ar y gweithlu a'r gwasanaeth yn fwy cyffredinol; lle y gallai ceisiadau yn flaenorol fod wedi'u dirwyn i ben oherwydd diffyg gwybodaeth, mae'r ceisiadau hyn bellach yn aros ar y system i ganiatáu i'r ymgeisydd ddod yn ôl at y broses pe bai'n brysur ar hyn o bryd yn delio ag effeithiau'r pandemig.
- v. Gofynnodd JM am y cynlluniau i adnewyddu a diwygio'r broses reoleiddio. Atebodd HD, gan dynnu sylw at yr ymdrech gydweithredol ledled y cynllun busnes drwy greu gwasanaeth cyswllt â chyflogwyr ac adolygiad o'r broses addasrwydd i ymarfer drwy gyflwyno adolygiad allanol arbenigol yn sgil proses archwilio gyfreithiol. Mae'r gofrestr hefyd wedi'i hagor i weithwyr cartrefi gofal i oedolion, ond nid yw hyn wedi cael llawer o gyhoeddusrwydd oherwydd COVID-19. Mae'n ofynnol cofrestru'r gweithlu hwn erbyn 1 Ebrill 2022 er y bydd trafodaethau rheolaidd gyda Llywodraeth Cymru ar y broses ofynnol o gofrestru'r gweithlu. Bydd aelodau'n gallu monitro cynnydd y rhaglen waith hon drwy graffu ar yr elfen honno o'r Cynllun Busnes gan y Pwyllgor Rheoleiddio a Safonau.
- vi. Fel Cadeirydd y Pwyllgor Rheoleiddio a Safonau, sicrhaodd SB yr aelodau fod y Pwyllgor yn cael ei frifio'n dda am yr heriau sy'n cael eu creu gan COVID-19 ac ehangu'r gofrestr, ac yn y cyd-destun hwnnw mae'n gyfforddus â'r meysydd hynny lle nad yw perfformiad yn bodloni'r targedau. Cyfeiriodd SB at adnewyddu'r broses reoleiddio a sut y caiff y broses addasrwydd i ymarfer ei rheoli gyda'r nifer cynyddol o bobl ar y gofrestr. Bydd hyn yn gofyn am berthynas waith dda gydag Arolygiaeth Gofal Cymru a darparwyr i sicrhau bod darparwyr yn glir ynghylch yr hyn sydd angen ei gyfeirio yng nghyd-destun pwysau ariannol yn ynghlwm wrth addasrwydd i ymarfer. Myfyriodd HD fod y defnydd arloesol o dechnoleg yn rhoi cyfle i sicrhau arbedion effeithlonrwydd pellach yn y dyfodol; mae adborth gan y rhai sydd wedi cymryd rhan

mewn gwrandawiadau rhithwir wedi bod yn gadarnhaol, a bydd yn bwysig adeiladu ar hyn yn y dyfodol.

- vii. Cyfeiriodd KS at Thema Blaenoriaeth 2, Rheolwyr, Arweinwyr a Pherchnogion Gofal Cymdeithasol a'r Blynyddoedd Cynnar. Atgoffwyd aelodau'r Bwrdd bod y Bwrdd wedi cytuno ar y targed ar gyfer nifer yr achosion gweithredol sydd ar waith yn hwy na 18 mis fel llai na 10%, ac na gafodd hynny ei gyflawni yn ystod Chwarter 1. Fodd bynnag, fel Cadeirydd y Pwyllgor Rheoleiddio a Safonau, sicrhodd SB yr aelodau fod y Pwyllgor wedi craffu'n fanwl ar hyn a bod cyfiawnhad dros hyn. Mae gwrandawiadau terfynol wedi'u hatal ers COVID-19, ond mae ystyriaeth yn cael ei rhoi ar hyn o bryd i sut y gellid eu hailddechrau o fewn y cyfyngiadau presennol a sicrhau bod y rhai sy'n cymryd rhan yn y broses yn ddiogel.
- viii. Ymatebodd SMC i gwestiwn gan EB ynghylch y risg i gyllid ar gyfer prentisiaethau lefel 2. Y ddealltwriaeth ar hyn o bryd yw y bydd cyllid lefel 2 yn parhau am dymor y Senedd a'r gobaith yw y bydd y llywodraeth newydd a ffurfir yn dilyn yr etholiadau ym mis Mai 2021 yn cynnwys buddsoddi mewn sgiliau a datblygu yn eu manifestos. Mae cyllid Ewropeaidd hefyd yn sail i'r cyllid ar gyfer prentisiaethau a bydd angen monitro hyn yn ofalus yn wyneb canlyniad y trafodaethau Brexit. O ganlyniad, mae'n bosib y bydd rhai heriau tymor byr o ran cefnogi dysgu prentisiaethau. Mae gwaith yn mynd rhagddo i asesu ffyrdd o wneud hynny ond nid oes perygl uniongyrchol ar sail yr hyn sy'n hysbys ar hyn o bryd. Fodd bynnag, caiff y sefyllfa ei monitro'n ofalus, o gofio y bydd cyllidebau'r dyfodol yn dibynnu ar benderfyniadau gwleidyddol a datblygiadau ehangach ar lefel y DU.
- ix. Ymatebodd SMC i gwestiynau gan JK ac SB ar y system fewnfudo sy'n seiliedig ar bwyntiau. Nid yw Llywodraeth Cymru yn cefnogi'r dull sy'n cael ei ddefnyddio, yn enwedig lle mae lefelau cymwysterau'n cael eu defnyddio i bennu beth yw cyflogaeth fedrus. Fodd bynnag, o gofio'i fod yn fater sydd heb ei ddatganoli, bydd angen deialog barhaus. Awgrymwyd y gallai Cymru lunio'i rhestr ei hun o alwedigaethau ble mae prinder ac y gallai hynny gynnig rhywfaint o hyblygrwydd. Mae clymblaid Cavendish, sy'n cynnwys amrywiaeth o gyrff cynrychioliadol, wedi bod yn edrych ar yr heriau mewnfudo o safbwynt gofal cymdeithasol. David Pritchard yw'r arweinydd gweithredol ar y maes hwn ac mae wedi bod yn cydgysylltu ac yn hwyluso adborth a thystiolaeth gyson i'r grwpiau perthnasol.
- x. Tynnodd KS sylw'r aelodau at Thema Flaenoriaeth 3 Arweinwyr Systemau Gofal Cymdeithasol a Blynyddoedd Cynnar, lle nad oedd diweddariadau pellach na'r rhai a gynhwyswyd yn y sylwebaeth ar berfformiad. Nid oedd unrhyw gwestiynau gan aelodau ar y thema flaenoriaeth hon.
- xi. Gan symud ymlaen at Thema Blaenoriaeth 4, gweithlu Gofal Cymdeithasol Cymru, unwaith eto ni chafwyd unrhyw ddiweddariadau pellach na chwestiynau gan aelodau.
- xii. Darparodd GR y wybodaeth ddiweddaraf i'r Bwrdd am y sefyllfa gyllidebol bresennol a sicrhodd aelodau bod gwariant y chwarter cyntaf yn unol â'r disgwyliadau. Addaswyd y gyllideb cyllid myfyrwyr oherwydd COVID-19 mewn perthynas â chostau teithio i leoliadau, er nad yw'r alldro wedi'i newid ar hyn o bryd. Caiff yr holl gyllidebau eu monitro'n agos yn ystod chwarter 2 gan fod cryn dipyn o waith i'w gomisiynu i gefnogi'r rhaglenni gwaith. Bydd y gyllideb bwrsari hefyd yn destun gan fod hyn yn

seiliedig ar ddyrannu 227 o fwrserïau newydd. Bydd costau Addasrwydd i Ymarfer mewn perthynas â gwrandawiadau hefyd yn cael eu hadolygu gan fod hyn yn seiliedig ar y dybiaeth y bydd gwrandawiadau terfynol yn aildddechrau.

- xiii. Tynnodd SE sylw at y gwaith sy'n cael ei wneud i gysoni cynllun busnes a chynllun strategol y sefydliad ag ymagwedd Llywodraeth Cymru tuag at adferiad wedi COVID-19. Bydd nifer o weithgorau a sefydlwyd fel rhan o'r ymateb i COVID-19 yn dechrau newid i fod yn grwpiau adfer a chynaliadwyedd, ac mae'r sefydliad wedi'i gynrychioli'n dda ar y grwpiau hynny. Dyma lle gellir defnyddio'r dystiolaeth a'r dysgu sydd wedi'u casglu o COVID-19. Mae tystiolaeth a ddarparwyd i gyfarfodydd diweddar Pwyllgorau'r Senedd wedi rhoi proffil uchel i ofal cymdeithasol, ac mae hynny'n creu cyfleoedd i atgyfnerthu'r angen am newid a'r opsiynau sydd ar gael. Mae adborth gan y Noddwr ar ymateb y sefydliad i COVID-19 wedi bod yn gadarnhaol iawn. Dywedodd SE wrth y Bwrdd ei bod wedi cael cais i wneud cyflwyniad ynghylch sut mae'r sefydliad wedi ymdopi ac addasu yn ystod y cyfnod hwn i gyfarfod y Fforwm Arweinwyr Cyhoeddus ar 30 Gorffennaf.
- xiv. Soniodd y Cadeirydd ei fod wedi clywed gan ymchwilydd yn gweithredu ar ran Cyllid Llywodraeth Cymru a oedd â diddordeb mewn deall sut mae sefydliadau wedi gallu cynnal llywodraethu effeithiol yn ystod y cyfnod hwn. Mae'n amlwg bod diddordeb yn y ffordd y mae'r sefydliad wedi addasu yn ystod y cyfnod hwn, sy'n adlewyrchu'n dda arno.
- xv. Darparodd SMC adborth ar y cyfarfod monitro Noddwr a gynhaliwyd ar 13 Gorffennaf. Roedd hwn yn gyfarfod a oedd yn cyfuno chwarter 4, 2019-20 a chwarter 1, 2020-21. Roedd adborth gan y Llywodraeth yn gadarnhaol o ran perfformiad ac ymagwedd a hyblygrwydd y sefydliad wrth addasu'n gyflym i sefyllfa sy'n esblygu. Fodd bynnag, cydnabuwyd hefyd y gallai fod angen gwneud rhagor o addasu, yn dibynnu ar yr hyn sy'n digwydd o fewn y sector dros y misoedd nesaf.
- xvi. Croesawodd JK yr ystwythder a'r hyblygrwydd a ddangoswyd dros y misoedd diwethaf ond roedd am dynnu sylw at y ffaith na fydd effaith lawn COVID-19 yn dod i'r amlwg tan y dyfodol. Yn benodol, o ran gofal cymdeithasol, gofynnodd pa mor rhagweladwy yw sefydliadau yn eu trafodaethau a sut y creffir ar lefelau risgiau, oherwydd yr holl bethau nad ydynt yn hysbys. Cydnabu SMC fod llawer o bethau nad ydynt yn hysbys ac mewn rhai meysydd gofal cymdeithasol, megis gofal cartref a gwaith cymdeithasol, mae'n bosibl nad yw'r pegwn wedi'i weld eto gan fod rhai meysydd gwaith wedi'u rhewi yn ystod y pegwn meddygol. Mae'r grwpiau y mae'r sefydliad yn aelodau ohonynt yn edrych ar y data, megis gofal yn y cartref ac amddiffyn plant ac mae grŵp modelu ar ryddhau cleifion o'r ysbyty. Nid oes darlun clir o'r hyn a ddaw i'r amlwg yn y dyfodol, ond rydym yn gweithio i nodi materion pellach ac i benderfynu sut y gall Gofal Cymdeithasol Cymru ymateb wrth iddynt ddod i'r amlwg.
- xvii. Ar ddiwedd y drafodaeth, cytunodd y Bwrdd ei fod wedi **craffu** ar y cynnydd yn erbyn Cynllun Busnes 2020-21 a'i **gymeradwyo** ar y cam tri mis.

9. Ymgynghoriad Cynllun Strategol Drafft 2021-2026

- i. Atgoffodd y Cadeirydd y Bwrdd y bu sawl cyfle o'r blaen i gyfrannu at ddatblygu'r Cynllun Strategol Drafft, yn fwyaf diweddar yn ystod sesiwn Datblygu'r Bwrdd ar 2 Gorffennaf. Byddai'r aelodau, gobeithio, yn gweld sut y mae'r adborth wedi'i ymgorffori yn y drafft terfynol a oedd yn cael ei gyflwyno.
- ii. Pwysleisiodd SMC nad dyma'r drafodaeth gyntaf i'r Bwrdd ei chael am y cynllun strategol, sy'n ceisio darparu darlun lefel uchel o ble mae'r sefydliad yn symud tuag ato yn ystod y pum mlynedd nesaf. Myfyriodd SMC fod y gwaith i ddiwygio'r cynllun strategol wedi digwydd oddi mewn i amserlen dynn ac felly gofynnodd i'r Bwrdd ddarparu adborth ar unrhyw feysydd sydd wedi'u hepgor neu nad ydynt mor gadarn ag y dylent fod.
- iii. Y fersiwn i'w thrafod heddiw oedd y ddogfen ymgynghori a fyddai'n cael ei rhannu â rhanddeiliaid i gael adborth a fydd yn llywio'r Cynllun Strategol terfynol.
- iv. Eglurodd SMC fod y Bwrdd yn cael ei holi i gymeradwyo'r ddogfen ymgynghori mewn egwyddor, gydag arwyddo'r ddogfen derfynol yn cael ei ddirprwyo i'r Cadeirydd a'r Prif Weithredwr. Bydd hyn yn caniatáu i fân ddiwygiadau gael eu gwneud yn dilyn adborth gan aelodau. Bydd hefyd yn rhoi cyfle i'r ddogfen ymgynghori ddrafft gael ei thrafod gyda'r Noddwr yn Llywodraeth Cymru cyn i'r cyfnod ymgynghori ddechrau ac i unrhyw addasiadau sy'n deillio o'r trafodaethau hynny gael eu hadlewyrchu.
- v. Rhoddodd SMC sylw i adborth a dderbyniwyd eisoes gan aelodau'r Bwrdd cyn y cyfarfod:
 - Bydd y tri maes blaenoriaeth gwella yn cael eu dileu o'r ddogfen ymgynghori ar y cam hwn;
 - Darperir eglurder ynghylch y datganiadau effaith, gan amlygu'r hyn y mae'r sefydliad yn ceisio'i gyflawni, a bydd gwaith pellach ar y datganiadau effaith yn cael ei gynnal tra bo'r ymgynghoriad yn parhau;
 - Bydd rhai addasiadau'n cael eu gwneud i'r fformadu a'r arddull cyflwyno i'w gwneud yn gliriach;
 - Bydd mwy o eglurder yn cael ei ddarparu ar brinder o ran y gweithlu a bydd mwy o ffocws ar amrywiaeth y gweithlu.
- vi. Gofynnodd SMC am unrhyw sylwadau neu fyfyrddodau pellach ar y ddogfen ymgynghori. Derbyniwyd y sylwadau canlynol:
 - Roedd gan PM rai sylwadau am fformat yr adran ymateb i ymgynghoreion y byddai'n hapus i'w rhannu y tu allan i'r cyfarfod. Gofynnodd hefyd a oedd cyfle drwy'r broses ymgynghori i gael adborth ar feysydd sy'n anodd i Ofal Cymdeithasol Cymru gael cipolwg arnynt. Er enghraifft, gellid ceisio gwybodaeth i fesur yr awydd am gydweithio agosach a chysoni gwell (e.e. wrth gydweithio'n well i gasglu data cyson ledled Cymru). Ymatebodd SMC gan nodi y gallem ystyried cryfhau'r elfen arweinwyr strategol a'r rôl rydym yn ei chwarae wrth ddylanwadu ar newid y system. Fodd bynnag, roedd yn bwysig nad oedd adborth yn cael ei geisio ar feysydd y tu allan i reolaeth y sefydliad na chylch gwaith y cynllun strategol.

- Gofynnodd JK am ail-edrych ar yr adran 'ein rôl o ran cyflawni ein heffaith' ar dudalen 183 er mwyn sicrhau bod y pwyntiau bwled yn gliriach. Cadarnhaodd SMC y bydd yr adran hon yn cael ei hadolygu.
 - Gofynnodd JM ai'r broses ymgynghori ysgrifenedig oedd yr unig fath o ymgynghori a gynhaliwyd? Dywedodd SMC y byddai'r ymgynghoriad ffurfiol yn seiliedig ar ymatebion ysgrifenedig, ond mae trafodaethau'n cael eu cynllunio gyda rhanddeiliaid allweddol i gael eu hadborth.
 - Gofynnodd AH a oes angen cyfeirio at ddarparwyr yn fwy penodol fel cynulleidfaoedd a rhanddeiliaid allweddol. Cytunodd SMC, a bydd yn adolygu'r ddogfen i bwysleisio fod darparwyr yn rhanddeiliaid allweddol.
 - Teimlai SB fod hwn yn gyfle, o ran casglu data, i osod targedau mesuradwy dros y 5 mlynedd nesaf. Cyfeiriodd SMC at y strategaeth ddata a'r symudiad at set ddata gofal cymdeithasol; cydnabyddir nad yw data'r gweithlu o ran y rhai sydd y tu allan i'r Gofrestr mor ddibynadwy ag y gallai fod. Mae ehangu'r Gofrestr yn rhoi cyfle i rannu data ar amrywiaeth y gweithlu lle mae unigolion yn dewis rhannu'r data hwnnw.
 - Gofynnodd PM a fyddai'r cwestiwn casglu data yn cael ei ddiwygio ar dudalen 184? Cadarnhaodd SMC y bydd y rhain yn cael eu hystyried i sicrhau bod cymaint o wybodaeth â phosibl yn cael ei chasglu. Gofynnodd i unrhyw awgrymiadau penodol gael eu hanfon ati hi a KS.
- vii. Dywedodd SE fod y broses ymgynghori wedi'i chynllunio i dynnu sylw at unrhyw fylchau neu feysydd posibl nad ydynt wedi'u hystyried. Caiff y strategaeth ddrafft ei diwygio yn ôl yr angen, yn ddibynnol ar yr adborth a dderbyniwyd.
- viii. Crynhodd y Cadeirydd y drafodaeth a chytunodd yr aelodau fod y Bwrdd wedi **trafod** a **chymeradwyo** dogfen ymgynghori Cynllun Strategol Drafft 2021 – 2026.
- ix. Oherwydd yr angen i fynd i'r afael â'r adborth ychwanegol a ddarparwyd gan aelodau ac i adlewyrchu adborth gan Is-adran Noddi Llywodraeth Cymru unwaith y bydd wedi dod i law, **dirprwyodd** y Bwrdd gymeradwyaeth derfynol i'r ddogfen ymgynghori Cynllun Strategol Drafft 2021 – 2026 i Brif Weithredwr a Chadeirydd y Bwrdd.

10. Diweddariad Gwelliannau Llywodraethu

- i. Atgoffodd y Cadeirydd y Bwrdd o drafodaethau blaenorol yn y maes hwn, gan ddechrau gyda thrafodaeth ar Ddiwrnod Datblygu'r Bwrdd ym mis Rhagfyr 2019 a nododd nifer o feysydd lle gellid cryfhau trefniadau llywodraethu corfforaethol y sefydliad. Dilynwyd hyn gan ymarfer ymgynghori yn seiliedig ar holiaduron ym mis Ionawr 2020 a phapur yn cael ei ystyried yng nghyfarfod y Bwrdd ym mis Ebrill 2020, pan gytunodd yr aelodau ar amrywiaeth o gamau datblygu i'w cymryd ynghyd ag amserlenni ar gyfer cyflawni.
- ii. Roedd y papur a oedd gerbron yn canolbwyntio ar:
- Gwneud Tâl a Llesiant yn bwyllgor ad hoc
 - Diwygio aelodaeth Pwyllgorau
 - Sefydlu Grŵp Cydlynu Cadeiryddion
 - Cymeradwyo Proses Weithredu Cadeiryddion

- iii. Gofynnodd y Cadeirydd am sylwadau cyffredinol cyn edrych ar bob un o'r elfennau yn y papur yn fanwl.
- iv. Cadarnhaodd LIB fod yr holl newidiadau a gwelliannau a awgrymwyd yn unol â'r Fframwaith Llywodraethu Enghreifftiol presennol. Gofynnwyd i'r aelodau nodi bod y Fframwaith Llywodraethu Enghreifftiol i fod i gael ei adolygu ac yn y cynllun gwaith ar gyfer yr Uned Cyrff Cyhoeddus ar gyfer 2020-21, er y gallai hyn gael ei ohirio oherwydd pwysau COVID-19. Mae'r papur hefyd wedi'i rannu ag Archwilio Mewnol.
- v. Tynnodd y Cadeirydd sylw at un o'r sylwadau a ddaeth i law gan archwilio mewnol, sef yr angen i ofalu rhag i aelodaeth Pwyllgorau fynd yn rhy fawr nes cyrraedd y pwynt bod eu heffeithiolrwydd yn dioddef. Awgrymodd y Cadeirydd roi sylw pellach i hyn pan fyddai diwygio aelodaeth Pwyllgorau yn cael ei drafod.
- vi. Gofynnodd y Cadeirydd am unrhyw sylwadau neu gwestiynau ar Gylch Gorchwyl diwygiedig y Pwyllgor Tâl a fyddai'n golygu y byddai'r Pwyllgor yn dod yn Bwyllgor ad hoc, a byddai'r aelodaeth yn cael ei bennu yn ôl yr angen gan y Grŵp Cydlynu Cadeiryddion. Byddai'r Adroddiad Adnoddau Dynol chwarterol wedyn yn cael ei dderbyn gan y Bwrdd llawn fel rhan o'r diweddariad am y cynllun busnes.
- vii. Gofynnodd JM a fu ymgynghori â staff Adnoddau Dynol ynghylch y newidiadau arfaethedig. Cadarnhaodd SE fod y rheolwr Adnoddau Dynol wedi bod yn rhan o'r gwaith o ailddrafftio'r cylch gorchwyl.
- viii. Nid oedd unrhyw gwestiynau na sylwadau pellach ar Gylch Gorchwyl diwygiedig y Pwyllgor Tâl a Llesiant.
- ix. Symudodd y Cadeirydd ymlaen at fater diwygio aelodaeth Pwyllgorau, gyda chynnig i gynyddu aelodaeth y Pwyllgorau yn sgil cael pob un o aelodau'r Bwrdd i eistedd ar ddau Bwyllgor.
- x. Gofynnodd AH a fyddai cworwm y Pwyllgorau yn newid yn wyneb cyflwyno aelodau ychwanegol. Dywedodd LIB y gallai fod yn berthnasol cynyddu'r cworwm o'r 3 presennol i 4. Yn dilyn trafodaeth, **cytunodd** y Bwrdd i gynyddu cworwm y Pwyllgorau o 3 i 4.
- xi. Croesawodd KH y cyfle, drwy ehangu aelodaeth y Pwyllgorau, i weithio gydag aelodau eraill o'r Bwrdd ar lefel Pwyllgor. Myfyriodd KH hefyd ar yr angen i gadw arferion da cyffredol, ble mae cwestiynau'n cael eu cyflwyno ymlaen llaw er mwyn sicrhau nad yw cyfarfodydd y Pwyllgor yn parhau'n rhy hir.
- xii. Gan symud ymlaen at y Grŵp Cydlynu Cadeiryddion, dywedodd y Cadeirydd, pe bai'r cynnig yn cael ei gymeradwyo, y byddai angen gwneud rhywfaint o waith pellach wedyn i benderfynu sut y byddai'n gweithredu er mwyn cyflawni ei gylch gorchwyl. Bydd y Bwrdd yn cael gwybod am gynnydd y Grŵp.
- xiii. Nid oedd unrhyw gwestiynau na sylwadau ar Gylch Gorchwyl y Grŵp Cydlynu Cadeiryddion.

- xiv. Gan symud ymlaen at y Broses Weithredu Cadeiryddion, atgoffodd y Cadeirydd y Bwrdd mai bwriad hyn oedd darparu proses fwy strwythuredig ar gyfer yr achlysuron prin hynny pan fo angen gwneud penderfyniadau brys y tu allan i strwythurau cyfarfodydd ffurfiol y Bwrdd.
- xv. Gofynnodd y Cadeirydd am unrhyw sylwadau neu gwestiynau:
- Gofynnodd PM beth fyddai'n digwydd pe na gellid dod i gytundeb drwy ymgynghoriad â dau aelod arall o'r Bwrdd. Cadarnhaodd y Cadeirydd y byddai cyfarfod arbennig o'r Bwrdd yn cael ei gynnull pe bai hynny'n digwydd. Cytunodd y dylid egluro hyn fel rhan o'r broses. **GWEITHREDU**
 - Gofynnodd CC a fyddai'n bosibl nodi'n gliriach o dan ba amgylchiadau y byddai'n briodol troi at Broses Weithredu Cadeiryddion fel dewis amgen i alw cyfarfod eithriadol o'r Bwrdd. Pwysleisiodd y Cadeirydd, oherwydd bod y Bwrdd yn gorff strategol ac yn rhinwedd y cyfansoddiad, bod y rhan fwyaf o'r penderfyniadau a wneir wedi'u datganoli i'r Prif Swyddog Gweithredol, ac y byddai'r angen i ddefnyddio'r Broses Weithredu Cadeiryddion yn gyfyngedig. Cyfeiriodd y Cadeirydd at enghraifft ddiweddar lle'r oedd yn ofynnol, mewn ymateb i COVID-19, i lofnodi'r diwygiad i reolau cofrestru o fewn cyfnod o dri diwrnod. Awgrymodd SE y byddai'n anodd llunio maen prawf penodol gan y gallai hyn greu risg o atal penderfyniadau pwysig. Awgrymodd CC y dylid ychwanegu brawddeg at y broses, gan bwysleisio, oherwydd ein fframwaith llywodraethu corfforaethol, mai anaml y byddai'r math hwn o benderfyniad yn digwydd. Cytunodd y Cadeirydd i ychwanegu paragraff at y broses sy'n nodi'r cyd-destun a'r amodau ynghlwm wrth ei ddefnydd. **GWEITHREDU**
 - Pwysleisiodd y Cadeirydd y byddai unrhyw benderfyniad a wneir gan y Broses Weithredu Cadeiryddion hefyd yn cael ei adrodd gerbron cyfarfod nesaf y Bwrdd i'w gadarnhau.
 - Gofynnodd PM a fyddai hi'n haws nodi ar gyfer beth nad oedd y broses i'w defnyddio, megis unrhyw benderfyniadau parhaol neu strategol. Cytunodd y Cadeirydd i ystyried hyn fel rhan o'r addasiadau.
 - Gofynnodd JM a fyddai'r Bwrdd yn cael gwybod bod y Broses Weithredu Cadeiryddion yn cael ei defnyddio cyn y penderfyniad yn hytrach nag aros am adroddiad yng nghyfarfod nesaf y Bwrdd. Cytunodd y Cadeirydd y bydd aelodau'r Bwrdd, lle bynnag y bo modd, yn cael gwybod cyn sefydlu'r Broses Weithredu Cadeiryddion.
- xvi Crynhowyd y drafodaeth a'r penderfyniadau a wnaed gan y Cadeirydd:
- **Cymeradwywyd** y Cylch Gorchwyl diwygiedig ar gyfer y Pwyllgor Tâl;
 - **Cytunwyd** ar ddiwygio aelodaeth y Pwyllgorau a **chymeradwywyd** newid yn y cworwm ar gyfer pob Pwyllgor o dri i bedwar aelod;
 - **Cymeradwywyd** Cylch Gorchwyl y Grŵp Cydlynu Cadeiryddion;
 - Cymeradwywyd y Broses Weithredu Cadeiryddion yn amodol ar baragraff cyd-destunol ychwanegol a'r addasiadau a nodwyd gan aelodau;
 - Byddai'r Grŵp Cydlynu Cadeiryddion yn trafod defnyddio'r porth a'r arfer o godi cwestiynau ymlaen llaw yn ei gyfarfod cyntaf **GWEITHREDU**.

11. COVID-19 a'r Strategaeth Gweithlu Iechyd a Gofal Cymdeithasol

